# *Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Natur Leol Ceredigion*

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

## *Cofnodion*

| | |
|---|---|
| ***Dyddiad:*** | 24/10/25 |
| ***Lleoliad:*** | Castell Aberteifi – Hybrid 'Teams' |

***Presennol***

| | | |
|---|---|---|
| Jake Rayson (Cadeirydd) | JR | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Rachel Auckland | RA | Cynorthwyydd Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Gillian Clark (Cofnodion) | GC | Swyddog Cefnogi Gwasanaethau CSC Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Fiona Moran | FM | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Chris Harris | CH | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Sarah Smith | SS | Ecolegydd Uwch Dros Dro, Cyngor Sir Ceredigion |
| Bob Jacques | BJ | Pencoed Top |
| Carole Fielding (Ar-lein) | CF | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Chesca Ross | CR | CAVO |
| Daniel Williams | DW | Dŵr Cymru |
| Molly Gilbert | MG | Aelod o'r Cyhoedd: Bridiwr ceffylau, Llannarth |
| Paul Taylor | PT | Cofnodwr y Sir, Butterfly Conservation |
| Rebecca Wright | BW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tim Strang | TS | Ffermwr, Bwlch-llan |
| Yusef Samari | YS | Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| 1 | **JR** Cytunodd i fod yn Gadeirydd y cyfarfod yn absenoldeb Eryl Evans. |

| 2 | **Cyflwyniadau gan y rhai a oedd yn bresennol** |
|---|---|

| 3 | **Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol** |
|---|---|
| | Penderfynwyd symud dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol i **ddydd Mawrth** i osgoi gwrthdaro â threfniadau pobl.<br><br>20 Ionawr 26 – Ar-lein<br>21 Ebrill – Ceinewydd<br><br>Nid oedd cofnodion i'w cytuno. |

| 4 | **Diweddariad gan Gydlynwyr** |
|---|---|
| 4.1 | **RA** Atgoffodd y rhai nad oeddent yn gwybod bod Ecolegydd Uwch Cyngor Sir Ceredigion (CSC) wedi cyflwyno'i hymddiswyddiad ac wedi gweithio'i chyfnod rhybudd, a chroesawodd **SS** a oedd wedi cymryd swydd Ecolegydd Uwch Dros Dro. |
| 4.2 | **RA** Dywedodd ei bod wedi cyflwyno'i rhybudd ymadael ac mai hwn oedd ei chyfarfod olaf fel cydlynydd Partneriaeth Natur Leol Ceredigion (PNLC). |
| 4.3 | **JR** Roedd am wybod a fyddai parti ymadael ar gyfer **RA**, a gofynnodd **CF** a fyddai'n agored i aelodau PNLC neu CSC yn unig. Dywedodd **RA** y byddai'n braf ymestyn gwahoddiad i rai aelodau presennol a rhai sydd wedi ymddeol oherwydd byddai gwahodd pawb yn ormodol, ond bod AH yn cael parti ymadael yn gyntaf.<br>**RA** –Yn bwriadu parhau'n aelod o'r bartneriaeth.<br>**RA** – Mae'r Cynllun Grantiau wedi ei lansio gyda 350k o geisiadau am gronfa arian o 100k. Cafodd y 100k i gyd ei ddyfarnu i fwy nag 11 o brosiectau.<br><br>**RA –** Roedd nifer o ecolegwyr wedi ymddeol yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth Cymru a gellir gweld grŵp yn cael ei lunio.<br><br>**RA** – Bydd yn trosglwyddo'r gwaith ar y Cylch Gwaith (ToR) i **SS**, **JR**, **GC** a **FM** i integreiddio'r sylwadau diweddaraf ac yna'i gyflwyno gerbron y Cyngor.<br><br>**RA** – Mae wedi cael cryn ffwdan yn gorffen ail ddrafft y CGAN. Mae sicrhau bod troednodiadau yn gywir yn fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg y ddogfen wedi achosi anawsterau, ond gobeithir na fydd yn rhy hir cyn y bydd ar dudalennau ymgynghori CGAN os bydd yn barod. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu** | | |

| 5 | **Diweddariadau Aelodau a Thrafodaeth** |
|---|---|
| 5.1 | **PT** – Diolchodd i bawb am anfon eu cofnodion. Mae niferoedd yr ieir bach yr haf wedi gwella ers 2024. Mae niferoedd da o Fritheg y Gors ar ran wahanol o Safle Rhos Llawr Cwrt, roedd safleoedd eraill yn dda a rhai heb fod cystal.<br>Mae safleoedd newydd wedi eu nodi ar gyfer y Brithribin Wen yng Nghilfach yr Halen a Bow Street.<br>Nifer o Weirlöyn Mawr y Waun wedi eu cofnodi ar Gors Caron, o bosibl am fod yno |
| 5.2 | swyddog prosiect newydd, Simon Batty. Nid oes canlyniadau ar gyfer Cors Fochno hyd yma, ond disgwylir iddynt fod yr un fath os nad yn well nag yn 2024.<br>**PT** Bu'n rhaid iddo gymryd lle Doug Lloyd a chynnwys safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.<br>Mae Swyddog Adfer newydd ar gyfer y Gweirlöyn Mawr y Waun yng Ngogledd y Sir i gynnwys Cors Fochno a Chors Caron. Mae'n cael ei goruchwylio o Brif Swyddfa Butterfly Conservation.<br>Mae colli'r aelodau staff Claire Williams ac Alan Sumnal wedi bod yn ergyd fawr i |
| 5.3 | Geredigion. Dylai aelodau staff newydd fod wedi eu penodi, ond nid oes hysbysebion wedi eu cyhoeddi eto.<br>Soniodd **PT** am fater ariannu. Roedd wedi bod mewn cyfarfod am ariannu'r Brithribin Brown gyda phartneriaethau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Am wahanol resymau nid oedd neb yn bresennol o Geredigion. Hoffai gael arian ar gyfer pethau fel costau teithio.<br>**PT** Nid yw wedi gallu mynd i bobman oherwydd y materion uchod.<br>**PT** Atgoffodd **PT SS** am rai coed sy'n bwysig i ieir bach yr haf.<br>Bydd arolygon wyau Brithribin Brown yn dechrau yn ystod wythnos gyntaf Mawrth 2026 ar hyd dyffryn Teifi ac mor bell â Llandysul. Gobeithir gwneud dau arolwg bob wythnos. |
| 5.4 | Ddydd Sadwrn 15 Tachwedd bydd arolwg yng ngardd Coedwig Gymunedol Naturewise yn dechrau am 10am. Hoffai pe bae **GC** yn parhau i hyrwyddo'r eitemau hyn.<br>**CR** Awgrymodd y dylai **PT** gysylltu â CAVO am ariannu gwirfoddolwyr.<br>**YS** Awgrymodd gael sgwrs â **PT** i weld a oes gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (CGBGC ) arian a gellid ei ddefnyddio i gofnodi. Roedd **YS** wedi nodi'r gwahaniaeth rhwng y cynghorau sy'n cymryd rhan yn eu prosiect Pick Your Patch ac |
| 5.5 | awgrymodd gysylltu â chydlynwyr PNL eraill i weld sut maen nhw'n dod i ben.<br>**TS** Roedd tuag 20 o bobl, wedi dod am daith fferm anffurfiol ar ei dir. Roedd yno bobl amheus, ond y canlyniad oedd bod gennym nawr glwstwr o chwech o bobl sy'n ffinio â'i gilydd ac yn berchen ar 400 erw rhyngddynt ac yn ystyried y syniad o ailwylltio.<br>**TS** Mae wedi cyflwyno cais am arian i Rewilding Britain's Innovation Fund tuag at gynnal ymarfer monitro gwaelodin ar ddau o'r daliadaethau. Byddant yn defnyddio Fframwaith monitro ac arfarnu NET. Bydd rhai o'r technegau'n defnyddio recordio sain a gwaith |
| 5.6 | awyrol.<br>Pan fydd enw gan y clwstwr o bobl, mae'n debyg y byddant yn cychwyn gwefan, yn defnyddio cyhoeddusrwydd ac yn cynnal teithiau ar ffermydd i ymgysylltu â mwy o bobl.<br>O fewn yr 400 erw mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Roedd yna brosiect gynt i agor llwybr i ganiatau i bobl ar gefn ceffyl. Roedd y gwaith yn cynnwys |

pibellau ½ metr ar draws i wella'r traenio nad yw wedi bod yn fanteisiol. Cysylltodd **TS** â Chyfoeth Naturiol Cymru am hyn, ac maent wedi cyflogi hydrolegydd i wneud arolwg.

**FM** Gofynnodd a oes gan TS unrhyw waith ar y gweill ar y foment. Mae gan TD ddiddordeb mewn adfer mawndir. Bydd **JR** yn anfon manylion y Grŵp Adfer Mawndir ymlaen**.**

**CF** Atgoffodd y rhai oedd yn bresennol fod Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn penderfynu pa waith sy'n cael ei gymeradwyo. Pan fydd CSC yn cael cais i wneud gwaith ar SoDdGA ar gyfer hawliau tramwy, ni all CNC ond eu cynghori. **CF** Byddai hefyd yn dymuno i PNLC feddwl am y cydbwysedd rhwng yr angen am fynediad i'r cyhoedd yn erbyn bioamrywiaeth a sut i gadw cydbwysedd rhwng anghenion sy'n cystadlu â'i gilydd.

5.7 O ran y gwaith ar y tir, roedd CNC wedi mynegi pryderon cyn hyn. Hoffai **CF** weld rhywun o Dîm Hawliau Tramwy CSC (PROW) mewn cyfarfod i roi cyflwyniad a, yr heriau sy'n eu hwynebu.

5.8 **FM** Mae'n awgrymu, os ydynt yn edrych am arian ar gyfer unrhyw waith, y dylai ofyn i'r Tîm Bioamrywiaeth yn CSC.

**BW** Roedd wedi ychwanegu at y sgwrs yr hyn oedd wedi ei gynnwys yn y cylchlythyr blaenorol, a oedd yn cynnwys ariannu a webinarau am Fawndiroedd.

**DW** Mae Gwaith Aberteifi wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r gwaith wedi dechrau. Y Bwriad yw ei orffen erbyn canol 2027. Mae cynllun dileu Ffosffadau Llanbedr Pont Steffan wedi ei orffen, a nawr mae'n dechrau comisiynu a'i ganiatâd newydd i ddod i rym ar 01/01/2026. Bydd hyn yn atal cyfran helaeth o Ffosffad DCAA rhag mynd i mewn i Afon
5.9 Teifi.

**DW** Mae ei gyfnod benthyg yn dod i ben ym mis Rhagfyr, felly byddwn yn ceisio cael cynrychiolydd arall o Dŵr Cymru i fod yn bresennol.

**GC** Gofynnodd am doriad byr i ddelio â mater gwefru.

**YS** Soniodd am y prosiect Your Wild Patch, lle mae pobl yn mabwysiadu darn penodol, yn adrodd am fioamrywiaeth y lle ac yn dymuno i bob llain tir gael cyd-destun ecolegol. Mae logo wedi ei greu ar gyfer y prosiect gan Carys o CGBGC.

Ar hyn o bryd gall pobl ddewis sgwariau 1 kilometr. Mae hyn yn dangos croestoriad o gyfanswm y cofnodion a nifer y gwahanol rywogaethau sydd wedi eu cofnodi. Ychwanegir at hyn i ddarparu cyd-destun am yr hyn mae'r niferoedd yn ei olygu er mwyn ichi gael
6.0 ychydig wybodaeth am y cynefinoedd yn eich milltir
sgwâr.

Mae CGBGC wedi bod yn gweithio gyda nifer o grwpiau gwahanol yn darparu hyfforddiant cofnodi ac yn gofyn cwestiynau am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd yna ffurflen i gysylltu â phob sgwâr i gael syniad o'r bioamrywiaeth y gallai ei chynnal a beth sydd yno nawr. Mae CGBGC yn siarad â nifer o bartneriaid ac yn dechrau sgyrsiau gydag arbenigwyr
6.1 mewn gwahanol grwpiau tacsonomeg. Mae'r prosiect wedi ei ariannu gan PNL tan fis Mawrth 2027. Mae wedi bod yn fwy anodd cychwyn y prosiect oherwydd oedi cyn i'r ariannu gael ei gymeradwyo gan CSC o'i gymharu â siroedd eraill.

Mae digwyddiadau Wild Watch wedi eu cynnal yn rheolaidd ym mhob sir (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) a hoffai **YS** i bawb hyrwyddo'r rhain a gwahodd pobl i gael hyfforddiant Wildpatch gyda'u grwpiau cymunedol. Mae Ceredigion wedi bod yn araf yn manteisio ar ddigwyddiadau agored. Gall pobl fabwysiadu darn o dir o unrhyw faint a ffurf.

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd pedwar digwyddiad i geisio adeiladu rhywfaint o fonitro.

6.2

| | |
|---|---|
| 6.3 | Mae **BJ** yn ceisio adfer cynefinoedd lle mae coed conifferaidd wedi eu plannu gynt. Cafwyd problemau gydag atgynhyrchu coed Sitka. Tasg fawr sydd i'w gwneud yw cwympo coed a cheisio gwneud y tir yn wlyb eto. Mae **BJ** hefyd eisiau cynnal y llennyrch yno lle mae olion mawn. Mae wedi bod yn siarad â Doug Lloyd o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt am yr hyn y gellir ei wneud i ddenu ieir bach yr haf.<br>Mae **BJ** yn gweithio ar gefnogi cynefin coetiroedd ac mae wedi bod yn edrych ar yr agwedd ar rywogaethau brodorol a fydd yn goroesi yn y dyfodol wrth i'n hinsawdd ddal i newid yn gyflym. Bydd hyn yn cynnwys siarad â grwpiau tarddiad lleol. Gall hyn olygu plannu amrywiaeth o rywogaethau i weld a ydynt yn addas. Efallai fod gan **JR** ffynhonnell o blanhigion ifanc.<br>**BJ** Cymerodd ran yng nghyfarfod gwytnwch hinsawdd gan Forest Research UK yn Llundain. Roedd yna gyfres o gyfweliadau os hoffai unrhyw un gael gwybodaeth am hynny. Hoffai **JR** gael y wybodaeth honno.<br>**BJ** Cadarnhaodd wrth **TS** fod yr offeryn cysoni hinsawdd ar gael am ddim**.**<br>**TS** Awgrymodd y gallai rhai mathau o goed pin weithio'n dda, e.e. Pin Corsica neu Bin yr Alban hwyrach.<br>**BJ** Mae am weld rhyw fath o drawsnewid fel y gall rhywogaethau di-asgwrn-cefn sy'n dibynnu ar fathau presennol o goed barhau. Soniodd **JR** am waith gan Brifysgol Caergaint ar gynorthwyo mudo ac mae'n dweud ei fod yn fater dadleuol ond yn werth meddwl amdano. |
| 6.4 | **CR** Dywedodd fod gwobrau Mannau Gwyrdd CAVO wedi cau yn ddiweddar, a chafwyd digwyddiad Dathlu Mannau Gwyrdd Ceredigion ddydd Llun 27 Hydref. Roedd yna 12 o grwpiau a gafodd tua £2000 yr un. Mae ganddynt y grant Cyswllt Ceredigion o £250 ar gyfer grwpiau cymunedol i gysylltu â'u cymunedau a rhoi gwybodaeth am wasanaethau. Mae gan CAVO hefyd grant trefi sy'n ceisio gwella argaeledd bwyd a lleihau unigrwydd yn Llanbedr ac Aberteifi.<br>Mae ganddynt brosiect sy'n gweithio gyda sefydliadau sydd eisiau bod yn fwy mentrus yn gymdeithasol gan gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a helpu grwpiau i fod yn wydn ac yn gynaliadwy.<br>**CR** Atgoffodd y rhai a oedd yn bresennol fod CAVO yno i helpu gydag ariannu, gwirfoddoli, llywodraethiant a llawer iawn mwy.<br>**RA** Gofynnodd a oedd Hazel Lloyd-Lubran yn gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC) a chadarnhaodd **CR** ei bod. |
| 6.5 | **CF** Dywedodd eu bod wedi treulio'r haf yn gweithio tuag at hysbysu am 2 SoDdGA newydd ar dir glas ger Tregaron a ger Nant-y-moch. Maent wedi gwneud nifer i arolygon yn ystod yr haf. Maent wedi gwneud arolwg o bryoffytau'n gysylltiedig â'r cyrsiau dŵr yng Nghoed Rheidol, un arall ar Fryniau Cambria i Merlin ac asesiadau hydrolegol o rai o SoDdGA gwlyptir CNC.<br>Maent wedi rheoli cynefinoedd yn gadarnhaol ar safleoedd fel gwarchodfa natur Grogwynion. Mae'r safle hwn yn wirioneddol bwysig am weundir sych a'r cennau sy'n gysylltiedig, felly maent wedi bod yn gweithio ar gael gwared â'r eithin ymledol.<br>Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cychwyn ym mis Ionawr ac maent yn cynnig cyngor am SoDdGA.<br>Mae'r PNLC gynt wedi helpu ariannu prosiect ar gyfer y Cwtiad Torchog yng Ngheredigion gan fod eu niferoedd dan bwysau oherwydd eu bod yn magu ar draethau yn y Borth ac |

| | | |
|---|---|---|
| | Ynys-las yn unig, debyg iawn. O’r saith nythaid a gafodd eu monitro yn ystod yr haf, un cyw yn unig a lwyddodd i gyrraedd ei lawn dwf.<br>Roedd morlo ifanc ar dreth y Borth a gwelwyd pobl a’u cŵn yn tarfu arno.<br>**BW** Bydd eu cynllunydd adnoddau coedwig yn diweddaru’r cynllun coedwigoedd ar gyfer Mynyddoedd Cambria, a fydd yn cynnwys sesiynau galw heibio yn Nhregaron, ond heb ddyddiadau pendant eto. Os oes gan rywun ddiddordeb, dylai gysylltu â **BW**.<br>**AP** Maent wedi bod yn ymwneud â Woody's Lodge, yr elusen i’r henoed sy’n datblygu eu safleoedd ac yn adeiladu rhwydwaith mewnol iddynt i bobl gael dod i wneud sesiynau llesiant. Maent wedi dechrau creu toiled compost i Nanteos ac wedi cymryd rhan gyda Hyb Cymunedol Penparcau i wneud safle dringo i blant.<br>Maent yn dal yn y broses o lunio cais ar gyfer y Gronfa Dreftadaeth ac yn chwilio am safleoedd yn y sir i allu gwneud gwaith tocio. Os gŵyr unrhyw un am unrhyw safleoedd, dylent gysylltu. Dywedodd **CF** efallai fod ganddynt rai safleoedd ar gael.<br>**MG** Mae ganddi ddarn bach o dir, ac mae hi yn y cyfarfod i weld sut y gall ei wella a chymryd rhan drwy rwydweithio gyda phobl eraill. Roedd wedi cysylltu â **JR** ers y cyfarfod blaenorol a chanmolodd ef am ei gymorth. | |
| | **JR** Bydd yn anfon manylion at **TS** am y grŵp Adfer Mawndir.<br><br>**GC** Bydd yn trefnu i aelod o dîm PROW CSC roi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Ionawr.<br><br>**JR** I gysylltu â **BJ** am wytnwch hinsawdd Forest Research UK . | Cyn cyfarfod Ion 26.<br><br>Cyn cyfarfod Ion 26.<br><br><br>Cyn cyfarfod Ion 26. |

| **TORIAD** |
|---|

| 7 | **DIWEDDARIADAU STAFF** |
|---|---|
| 7.0<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>7.1 | **RA** Dywedodd, drwy ddefnyddio arian LlLGN, eu bod wedi ymestyn oriau **CH** o dri diwrnod yr wythnos i bum diwrnod. Rhaid i’r ddau ddiwrnod sy’n cael eu hariannu fodloni amcanion LlLGN.<br>**CH** Mae wedi bod yn gweithio ym Mharc- y-llyn gyda’r robo dorwyr ac ym Mhendinas. Mae gwaith o hyd ar ôl storm Darragh, ac mae wedi bod yn gweithio gyda Fiona ar gynlluniau ar gyfer Parc Natur Pen-glais a Llyn yr Eos. Mae wedi bod yn gweithio ar arwyddion i rai o'r gwarchodfeydd natur ac yn defnyddio arian y Goedwig Genedlaethol gyda Fiona.<br>**CH** Mae wedi bod yn clirio drain yng Nghenarth a Llanina. Mae Cefn Garsai wedi bod yn bwysig ar gyfer nadroedd defaid. Mae’n anodd adnabod Maes y Porth erbyn hyn ar ôl gwaith gwella. Gobeithio y caiff ei drosglwyddo o ofal y Cyngor Tref a Chymuned.<br>**RA** Mae’n gobeithio pan fydd **CH** yn ei swydd y bydd yn pontio ychydig o’r bwlch rhwng gweddill y Tîm Ecoleg a’r Ystadau.<br>**PT** Dywedodd fod ychydig rafnwydd gynt wedi bod ar Ben Dinas a hoffai wybod a fyddent yn cael eu hailblannu. |

| | |
|---|---|
| 7.2 | **FM** Hoffai wybod allai'r robo dorrwr gael ei ddefnyddio ar safleoedd eraill. Dywedodd **CH** ei fod yn gymwys i'w ddefnyddio, ond rhaid iddo gael ei ddefnyddio gyda rhywun o'r adran cynnal a chadw.<br>**FM** Mae wedi bod yn helpu pobl sydd â chynllun grant LlLGN, ac mae wedi gwneud cais am y Grant Tirweddau Coedwig Genedlaethol Cymru. Bydd yr arian yn mynd i nifer o wahanol bartneriaid yn ymwneud â phrosiectau, yn bennaf yn ardal Biosffer Dyfi.<br>**FM** Mae wedi bod yn gweithio gyda phobl o Warchodfa'r Pysgotwr – Daliad y Dydd i helpu pobl yn y diwydiant pysgota a chefnogi busnesau bach. Fe fydd diwrnodau agored.<br>**JR** Soniodd am enwau lleoedd hanesyddol, a hoffai roi cyhoeddusrwydd i hyn ym mhob cyfarfod. Dylai unrhyw un a hoffai gael rhagor o wybodaeth neu gael gweithdy gysylltu yn biodiversity@ceredigion.gov.uk<br>**JR** Atgoffodd bawb i rannu'r cylchlythyr, sydd wedi cael sylwadau caredig gan bobl, a holodd am **FB**. Esboniodd **GC** y byddai'r ddalen **FB** yn cael ei lansio gyda'r wefan.<br>**JR** Dangosodd rai o'r prosiectau LlLGN mae'n gweithio arnynt. Mae'r wefan yn dal i gael ei chreu a gobeithia **JR** ei lansio ym mis Tachwedd. Bydd yn cynnwys y prosiect Lle Gwyllt. Mae gan **JR** ddiddordeb mewn Agro-goedwigaeth sy'n cyfuno addysg a bywoliaeth gynaliadwy. Mae'n edrych ar brosiect sy'n darparu arian grant ar gyfer seilwaith ffisegol a chymdeithasol.<br>Canolbwyntio ar weithio gydag ysgolion a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>**GC** Roedd y rhan fwyaf o'r hyn roedd ganddi i'w ddweud wedi ei gynnwys gan bobl eraill.<br>**GC** Diolchodd i **YS** am yr help ac am drefnu cysylltiadau ar gyfer Mwsogl yr Afon a'r Ferfain i gael llun ar gyfer hysbysfwrdd. Mae'n ddiolchgar iawn i Phillip Wilson sydd yn ei amser ei hun yn helpu crynhoi'r eitemau mae arni eu hangen ar lefel broffesiynol. |
| 7.3 | Yng nghyfarfod mis Ionawr bydd **GC** yn rhoi cyflwyniad byr am y Cynllun Grant LlLGN 24/25 ac yn dangos ychydig o'r gwaith a gafodd ei wneud.<br>Mae'r gwaharddiad gwirfoddol ar Gylchoedd Hedfan wedi ei roi o'r neilltu/ni fydd yn parhau. Roedd **GC** yn siomedig oherwydd bod hyn yn gyfle i gysylltu â LlLGN eraill, ond mae'n gobeithio y bydd yn arwain at brosiect pell-gyrhaeddol a llawer iawn mwy.<br>**GC** Bydd yn ceisio newid y cyfarfod PNLC i ddydd Mawrth er mwyn peidio â gwrthdaro â chyfarfodydd Cyngor y Cadeirydd Eryl Evans.<br>**FM** Mae'n gweithio mewn Partneriaeth ag adran Ffilm a Theledu Prifysgol Aberystwyth i greu ffilm fer am yrfaoedd mewn cadwraeth, ffermio sy'n garedig i natur a gwaith ar y tir i'w dangos i blant ysgol uwchradd. Mae'n seiliedig ar Fiosffer Dyfi, ond ar gael yng Ngheredigion gyfan. Os oes gan rywun ddiddordeb, dylai gysylltu â Fiona yn uniongyrchol neu ar biodiversity@ceredigion.gov.uk |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu** | **CH**, **PT** a **JR** i gael sgwrs am y rhafnwydd ar Ben Dinas. | |